OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2007 No. 376

# Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) 2007

## RHAN 11

Tramgwyddau a Chosbau

**Rhwystro**

**62.** Ni chaiff neb—

(a) rhwystro unrhyw berson yn fwriadol wrth iddo arfer pwer a roddwyd gan reoliad 8 na 9 nac wrth iddo gyflawni unrhyw swyddogaeth reoliadol arall;

(b) methu cydymffurfio heb esgus rhesymol â gofyniad a osodwyd arno yn unol â rheoliad 8 neu 9 neu fethu rhoi i unrhyw berson sy'n arfer pwer a roddwyd gan y rheoliadau hynny, neu sy'n cyflawni unrhyw swyddogaeth reoliadol arall, unrhyw gymorth neu wybodaeth y gall fod ar y person hwnnw angen rhesymol amdano neu amdani er mwyn arfer y pwer neu gyflawni'r swyddogaeth; na

(c) rhoi i unrhyw berson sy'n arfer pwer a roddwyd gan reoliad 8 neu 9 neu sy'n cyflawni unrhyw swyddogaeth reoliadol arall unrhyw wybodaeth y mae'n gwybod ei bod yn ffug neu'n gamarweiniol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Rhl. 62 mewn grym ar 14.2.2007, gweler **rhl. 1(2)**

**Amddiffyniadau**

**63.**—(1) Mewn unrhyw achos am dramgwydd o dorri un o ddarpariaethau'r rheoliadau a restrir yn Atodlen 4, bydd yn amddiffyniad i'r person a gyhuddir brofi ei fod wedi cymryd pob rhagofal rhesymol ac wedi arfer pob diwydrwydd dyladwy i osgoi cyflawni'r tramgwydd ei hun neu i osgoi iddo gael ei gyflawni gan berson o dan ei reolaeth.

(2) Os yw'r amddiffyniad sy'n cael ei ddarparu gan baragraff (1) mewn unrhyw achos yn cynnwys honni bod y tramgwydd wedi'i gyflawni oherwydd gweithred neu fethiant person arall, neu oherwydd i'r person a gyhuddir ddibynnu ar wybodaeth a ddarparwyd gan berson arall, ni chaiff y person a gyhuddir, heb ganiatâd y Llys, yr hawl i ddibynnu ar yr amddiffyniad hwnnw, oni bai—

(a) o leiaf saith niwrnod clir cyn y gwrandawiad; a

(b) pan fo'r sawl a gyhuddir wedi ymddangos o flaen llys, neu wedi cael ei ddwyn gerbron llys, o'r blaen mewn cysylltiad â'r tramgwydd honedig, o fewn un mis i'r ymddangosiad cyntaf hwnnw gan y sawl a gyhuddir,

ei fod wedi cyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i'r erlynydd yn rhoi unrhyw wybodaeth ag a oedd yn ei feddiant bryd hynny sy'n fodd i adnabod neu'n gymorth i adnabod y person arall hwnnw.

(3) Mewn unrhyw achos am dramgwydd o dan reoliad 5(9), mae'n amddiffyniad i'r sawl a gyhuddir brofi ei fod yn credu'n rhesymol—

(a) bod y datgeliad yn gyfreithlon; neu

(b) bod yr wybodaeth eisoes wedi ei rhyddhau'n gyfreithlon i'r cyhoedd.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I2** Rhl. 63 mewn grym ar 14.2.2007, gweler **rhl. 1(2)**

### Toriadau

**64.** Bydd unrhyw un—

(a) sy'n torri un o ddarpariaethau'r Rheoliadau hyn, ac eithrio—

(i) y darpariaethau a geir yn rheoliadau 8(3) a 19(3) sy'n cyfeirio at dalu costau; a

(ii) y darpariaethau a geir yn rheoliadau 23(7), 28, 43(5), 45(2) a 57; neu

(b) sy'n methu â chydymffurfio â hysbysiad a gyflwynir iddo o dan y Rheoliadau hyn,

yn euog o dramgwydd.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** Rhl. 64 mewn grym ar 14.2.2007, gweler **rhl. 1(2)**

### Cosbau

**65.**—(1) Mae'r sawl sy'n euog o'r tramgwydd o dorri rheoliad 62(a) neu (b) yn agored i'w gollfarnu'n ddiannod i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 5 ar y raddfa safonol neu i garchariad am gyfnod nad yw'n hwy na thri mis, neu'r ddau.

(2) Mae'r sawl sy'n euog o unrhyw dramgwydd arall o dan y Rheoliadau hyn yn atebol—

(a) o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy heb fod yn uwch na'r uchafswm statudol, neu i garchariad am gyfnod nad yw'n hwy na thri mis neu i'r ddau;

(b) o'i gollfarnu ar dditiad, i garchariad am gyfnod nad yw'n hwy na dwy flynedd, neu i ddirwy neu i'r ddau.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I4** Rhl. 65 mewn grym ar 14.2.2007, gweler **rhl. 1(2)**

### Tramgwyddau gan gyrff corfforaethol

**66.**—(1) Os profir bod tramgwydd o dan y Rheoliadau hyn sydd wedi'i gyflawni gan gorff corfforaethol—

(a) wedi'i gyflawni drwy gydsyniad neu ymoddefiad swyddog, neu

(b) i'w briodoli i unrhyw esgeulustod ar ei ran,

bydd y swyddog, yn ogystal â'r corff corfforaethol, yn euog o'r tramgwydd a bydd yn agored i gael ei erlyn a'i gosbi yn unol â hynny.

(2) Pan fo materion corff corfforaethol yn cael eu rheoli gan ei aelodau, mae paragraff (1) yn gymwys mewn perthynas â gweithredoedd a diffygion aelod mewn cysylltiad â'i swyddogaethau rheoli fel pe bai'r aelod hwnnw yn un o gyfarwyddwyr y corff.

(3) ystyr "swyddog", mewn perthynas â chorff corfforaethol yw cyfarwyddwr, aelod o'r pwyllgor rheoli, prif weithredwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog cyffelyb o'r corff, neu berson sy'n honni ei fod yn gweithredu mewn unrhyw swydd o'r fath.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I5** Rhl. 66 mewn grym ar 14.2.2007, gweler **rhl. 1(2)**

### Tramgwyddau gan bartneriaethau Albanaidd

**67.** Os profir bod tramgwydd o dan y Rheoliadau hyn sydd wedi'i gyflawni gan bartneriaeth Albanaidd wedi'i gyflawni gyda chydsyniad neu ymoddefiad partner, neu os gellir priodoli'r tramgwydd hwnnw i unrhyw esgeulustod ar ran partner, bernir bod y partner hwnnw, yn ogystal â'r bartneriaeth, yn euog o'r tramgwydd hwnnw a bydd yn agored i gael ei erlyn a'i gosbi yn unol â hynny.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I6** Rhl. 67 mewn grym ar 14.2.2007, gweler **rhl. 1(2)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) 2007. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to :**

– Regulations revoked by S.I. 2011/2379 reg. 43(1)(e)

**Changes and effects yet to be applied to the whole Instrument associated Parts and Chapters:**

– Blanket amendment words substituted by S.I. 2011/1043 art. 3-68-10